**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ann Jones
Cadeirydd, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd

12 Tachwedd 2014

Annwyl Ann,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Hydref yn gofyn am ragor o wybodaeth, yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor ar 23 Hydref. Amlinellir hyn isod.

**Prosesau Asesu Effaith**

Mae'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol yn rhan allweddol o'r broses gyllidebol i sicrhau nad yw unrhyw benderfyniadau ariannu yn effeithio'n anghymesur ar adrannau o'n cymdeithas. Os oes effaith, nod yr asesiad yw sicrhau bod yr effaith honno'n cael ei deall yn llwyr a bod modd cymryd camau lliniarol lle bo angen. Cafodd hawliau plant, fel rhan o'r broses Asesu Effaith Integredig Strategol, eu hystyried gan yr holl Adrannau wrth bennu dyraniadau drafft. Nodir y canlyniadau yn y ddogfen a gyhoeddwyd gyda'r gyllideb ddrafft.

Er gwaethaf y setliad cyllidebol heriol a gafodd Llywodraeth Cymru, dim ond nifer fach o newidiadau sydd i'r cyllidebau o fewn Prif Grŵp Gwariant Cymunedau a Threchu Tlodi sy'n cefnogi ein hymyriadau allweddol i helpu plant a phobl ifanc.

Mae'r newidiadau cyllidebol i Faes Rhaglenni Gwariant Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd eisoes wedi'u datgelu'n llawn i'r Pwyllgor ac maent fel a ganlyn:

| **Maes Gwariant** | **Faint o ostyngiad** | **Effaith** |
|---|---|---|
| Teuluoedd yn Gyntaf | 956,000 | Caiff yr effaith ei lliniaru gan ostyngiad yn y ddarpariaeth gwerthuso a rhywfaint o or-raglennu i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n llawn. |
| Cefnogaeth i Hawliau Plant | 48,000 | Gwaith wedi llunio casgliad yn naturiol |
| Eiriolaeth | 15,000 | Arian heb ei ymrwymo. Nid yw'n effeithio ar gontract gwasanaeth llinell gymorth MEIC |
| Gofal Plant a Chwarae | (50,000) | Astudiaeth Ddichonoldeb |
| | 969,000 | |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae cyllidebau wedi cael eu diogelu i gynnal ein cefnogaeth i'n hymyriadau allweddol ar gyfer plant a phobl ifanc. Rydym yn diogelu cyllideb adnoddau Dechrau'n Deg gwerth £76.89m sef ein rhaglen Blynyddoedd Cynnar flaenllaw.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i gynnal rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod tymor y Cynulliad hwn a byddwn yn buddsoddi £43.7m yn ystod 2015-16. Cyflawnir y gostyngiad o £0.956m uchod heb ostwng y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau'r rheng flaen.

**Dechrau'n Deg**

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn i ni'n flaenorol roi gwybodaeth am y lefel o ddiddordeb ym mhedwar gwasanaeth craidd Dechrau'n Deg. Nid yw hyn yn bosibl ac fel yr esboniwyd yn y Pwyllgor, heb ddynodwr unigryw ar gyfer y plant a'r rhieni sy'n ymwneud â Dechrau'n Deg, ni allwn gasglu'r data hyn.

Fel y gwyddoch, i lawer o'r teuluoedd y byddwn yn gweithio gyda nhw yn Dechrau'n Deg, yr her yw sicrhau eu bod yn dangos diddordeb yn y rhaglen, ennyn eu diddordeb a sicrhau ein bod yn eu hannog i gael gafael ar y gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Mae gan lawer eisoes agwedd negyddol at wasanaethau cymorth i deuluoedd. Felly, gallai gofyn iddynt ddatgelu eu manylion adnabod fel hyn eu stigmateiddio ac o bosibl fod yn wrthgynhyrchiol i ddatblygu perthynas effeithiol rhwng y teuluoedd a Dechrau'n Deg.

**Y Cyfraddau sy'n Manteisio ar Dechrau'n Deg**

Yn gyntaf, hoffwn egluro ein bod yn casglu data helaeth o fewn Dechrau'n Deg a gallwn fonitro'n agos y cyfraddau sy'n manteisio ar hawliadau ar gyfer plant cymwys a'u rhieni. Gallaf eich sicrhau y byddwn yn parhau i fonitro'r nifer sy'n manteisio ar wasanaethau Dechrau'n Deg ac os gwelwn ni ddata sy'n awgrymu bod nifer lai nag arfer yn manteisio ar y gwasanaethau neu fethiant i gyrraedd teuluoedd, byddwn yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â hyn. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu dull cadarn o werthuso'n gyffredinol effaith hirdymor Dechrau'n Deg. Nododd y Pwyllgor nifer o feysydd lle cododd y Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg gwestiynau am arwyddocâd ystadegol canfyddiadau'r gwerthusiad.

Fel yr esboniwyd yn y Pwyllgor, mae heriau'n gysylltiedig â gwerthuso rhaglenni cenedlaethol fel Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad wedi dangos yn glir, yn arbennig ar gyfer teuluoedd ag anghenion uchel, bod Dechrau'n Deg wedi llwyddo i gyrraedd rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae'n dangos hefyd ein bod yn cyflawni canlyniadau gwell i deuluoedd.

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am ddata ar niferoedd y teuluoedd cymwys mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nad ydynt yn manteisio ar y gwasanaethau. Nid yw hyn yn ddata a gasglwn yn rheolaidd gan y byddai'r teuluoedd hynny, i bob pwrpas, yn cael eu cofnodi gan wasanaethau y tu hwnt i Dechrau'n Deg - er enghraifft, wedi'u cofrestru o bosibl â gwasanaethau cyn-enedigol neu ofal sylfaenol. Fodd bynnag, dylid nodi na fyddai pob teulu â phlant 0-4 oed mewn ardal Dechrau'n Deg wedi'i gofrestru â'r gwasanaethau hyn e.e. pe bai teulu â phlentyn 2 oed yn symud i ardal Dechrau'n Deg heb fanteisio ar ofal sylfaenol neu wasanaeth tebyg. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried y mater hwn ymhellach a byddaf yn adrodd yn ôl i chi.

**Rhaglen Gyfalaf Dechrau'n Deg**

Mae 'Model Busnes 5 Achos' Trysorlys y DU wedi cael ei ddefnyddio i ystyried yr holl geisiadau i Lywodraeth Cymru am arian cyfalaf. Mae pob Awdurdod Lleol wedi gorfod cyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol a oedd yn gofyn iddynt nodi'r achos strategol, yr achos economaidd, yr achos masnachol, yr achos ariannol a'r achos rheoli ar gyfer

buddsoddi mewn cyfleusterau. Drwy wneud hynny, bu'n rhaid i'r Awdurdodau Lleol roi manylion yr holl opsiynau/adeiladau eraill y maent wedi'u hystyried, cyn cadarnhau'r ffordd ymlaen a ffafrir ganddynt. Rydym yn dibynnu ar y wybodaeth a gawn gan Awdurdodau Lleol, o ran yr hyn sydd ar gael ac nad yw ar gael yn yr ardal leol. Ond mae'n rhaid i berson cyfrifol yn yr Awdurdod Lleol lofnodi'r Rhaglen Amlinellol Strategol a gyflwynir a gellid adennill unrhyw arian a ddyfernir o ganlyniad i'r wybodaeth a nodir yn y Rhaglen honno pe canfyddid ei bod yn anghyflawn neu'n anghywir.

Fel y trafodwyd yn sesiwn y Pwyllgor cafwyd achosion lle bu'n rhaid trefnu lleoliadau newydd er bod cyfleusterau eraill gerllaw. Digwyddodd hyn am nifer o resymau, er enghraifft mae angen i leoliad gofal plant Dechrau'n Deg fod ar gael 5 diwrnod yr wythnos rhwng oriau penodol. Os yw'r ganolfan gymunedol bresennol eisoes yn cael ei defnyddio i raddau helaeth, efallai na fydd yn gallu sicrhau y bydd y lleoliad ar gael i'w ddefnyddio o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8.30am a 12 hanner dydd, er enghraifft, ac os felly byddai angen dewis amgen. Cafwyd achosion hefyd lle nad oedd darparwyr gofal plant presennol yn awyddus i gynnig llefydd Dechrau'n Deg gan y byddent ond yn cael eu talu am uchafswm o 5 awr y dydd (mae un sesiwn gofal plant yn 2.5 awr y dydd a bydd sesiwn yn y bore ac un arall yn y prynhawn fel arfer) lle gallent gael eu talu am 9 neu 10 awr pe baent yn derbyn plant rhieni sy'n gweithio.

Dengys yr ystadegau fod llai na 10% o'r holl brosiectau yr ymgymerir â nhw fel rhan o'r gwaith ehangu cyfalaf yn adeiladau newydd, mae'r gweddill yn cynnwys gwaith i adnewyddu, addasu a gwella cyfleusterau sydd eisoes o fewn cymunedau Dechrau'n Deg.

**Teuluoedd yn Gyntaf**

Fel y nodir uchod, caiff darpariaeth reng flaen ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ei chynnal. Yn ogystal, cyfeiriodd fy mhapur tystiolaeth at y ffaith bod rhaglenni ar draws fy mhortffolio, yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, bellach yn gweithio gyda'i gilydd yn agosach. Bwriad yr integreiddio cynyddol hyn yw cynyddu effaith yr adnoddau sydd gennym i gefnogi plant, teuluoedd a chymunedau i drechu tlodi.

O ran canlyniadau Teuluoedd yn Gyntaf, mae'n bwysig nodi'r canlyniadau cadarnhaol y gellir eu cyflawni heb fod angen paratoi cynllun. Mae'r ffigur o 53% ond yn cwmpasu'r achosion hynny lle paratowyd cynllun. Rydym yn ystyried yn barhaus sut i wella'r rhaglen a ddarperir ac fel yr esboniais yn y Pwyllgor, byddwn yn gobeithio gweithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol. Byddwn hefyd yn llywio dysgu yn y rhaglen drwy ddulliau dysgu gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Cynhaliwyd ein digwyddiad dysgu cenedlaethol diweddaraf ar Teuluoedd yn Gyntaf ar 10 Tachwedd.

**Tlodi plant**

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r gwerthusiad o Strategaeth Tlodi Plant 2011 wedi llywio'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig, a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad ar 6 Tachwedd 2014. Roedd y gwerthusiad yn cefnogi'r dull gweithredu sydd ar waith yng Nghymru (a'i ffocws ar y blynyddoedd cynnar a gwella cyrhaeddiad addysgol). Fodd bynnag, cydnabu fod hyn yn fwy tebygol o gael effaith yn y tymor hwy. O ganlyniad, mae ein Strategaeth Tlodi Plant ddiwygiedig yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wella amgylchiadau a chanlyniadau teuluoedd incwm isel "yn y fan a'r lle". Yn benodol, mae'n blaenoriaethu tlodi bwyd, gofal plant, tlodi mewn gwaith, gweithredu i liniaru effaith y diwygiadau lles a thai ac adfywio.

**Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd**
Gwnaethoch ofyn am eglurhad o'r broses a gynhaliwyd i ddyfarnu'r grantiau o dan y cynllun grant uchod. Nodwyd pum maes blaenoriaeth ar gyfer ariannu: gofal plant, chwarae, cefnogi teuluoedd, ymgysylltu â theuluoedd a datblygu polisïau/strategol. Gwahoddwyd ceisiadau gan sefydliadau trydydd sector yng Nghymru, sydd â'r gallu i weithredu'n genedlaethol. Cafodd y ceisiadau eu hasesu gan banel, dan arweiniad fy swyddogion i a swyddogion eraill sydd â dealltwriaeth o drechu tlodi, cydraddoldebau ac amrywiaeth a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Dyfarnwyd pum grant, ond ym mhob maes roedd y ceisiadau ar y cyd ac felly rydym yn ariannu mwy na phum sefydliad drwy'r rhaglen.

Nid oedd Chwarae Cymru yn llwyddiannus gyda'i gais am Grant Cyflawni Plant a Theuluoedd. Mae Chwarae Cymru wedi cyflwyno cais i mi ers hynny, ac er ein bod yn cefnogi'r grant rydym wedi'i ddyfarnu yn y flaenoriaeth Chwarae ac yn cytuno y bydd hyn yn sicrhau cyfleoedd chwarae i blant, mae meysydd polisi a darparu na chânt eu cyflawni drwy'r grant hwn. Nid methiant proses y Grant yw hwn ond mae'n adlewyrchu'r ceisiadau a gyflwynwyd ac a aseswyd. Rwyf wedi cytuno i ddarparu arian i Chwarae Cymru ar gyfer gweithgareddau penodol a fydd yn cefnogi agenda polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer chwarae. Nid arian craidd mo hwn.

Nid yw'r £50,000 y cyfeiriwch ato yn eich llythyr yn ariannu Chwarae Cymru. Mae hwn yn ariannu datblygiad rhaglen newydd yn 2015/16 i gefnogi gofal plant i bobl ifanc. Byddaf yn gallu rhoi mwy o fanylion am y rhaglen hon i'r Pwyllgor yn y dyfodol agos.

**Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc**
Mae Strwythurau Cyfranogiad Cenedlaethol wedi newid yn ddiweddar gyda Plant yng Nghymru bellach yn arwain model Cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol. O ganlyniad, roedd angen diweddaru gwybodaeth ac mae fy swyddogion i wedi bod yn gweithio gyda Plant yng Nghymru, y Comisiynydd Plant ac Awdurdodau Lleol i sicrhau bod y model newydd yn cael ei hyrwyddo a'i weithredu. Disgwyliwn i'r newidiadau diweddar hyn gael effaith gadarnhaol.

Bydd yr Hwb Cyfranogiad yn parhau i gael ei gefnogi a'i hyrwyddo gan Plant yng Nghymru. Mae'n nodi'n glir ystyr cyfranogiad, yn amlinellu'r strwythurau i gefnogi gweithwyr ac yn darparu adnoddau a deunyddiau cyfranogiad.

O ran nodi'r strwythurau lleol a chenedlaethol i gefnogi cyfranogiad, rydym wedi ailgyhoeddi Cydamcanu – Cydymdrechu, y canllawiau statudol ar gyfer Awdurdodau Lleol a'u partneriaid i ddatblygu Cynlluniau Integredig Sengl.  Mae hyn bellach yn cynnwys Atodiad sy'n nodi'r canllawiau statudol ar gyfer darparu a hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc o dan Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty